**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg**
**Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: WQ81404

18 Tachwedd 2020

Annwyl Rhun,

Diolch ichi am eich cwestiynau – llafar yn y Cyfarfod Llawn ac ysgrifenedig – ynghylch dyfodol *Amser i Newid Cymru* yn dilyn y cyhoeddiad y bydd cyllid Llywodraeth y DU ar gyfer *Time To Change England* yn dod i ben ym mis Mawrth 2021. Hoffwn ymddiheuro yn y lle cyntaf am yr oedi wrth ymateb i'ch cwestiwn ysgrifenedig.

Rwy'n cytuno y dylai mynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl fod yn flaenoriaeth i'r llywodraeth. Mae hyn yn thema o fewn ein cynllun gweithredu *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* 2019-22 sydd wedi'i ei ddiweddaru'n ddiweddar ac sy'n bleser gen i arwain ar ei weithredu yn fy rôl newydd fel y Gweinidog dros iechyd meddwl.

Fel a nodais yn y Cyfarfod Llawn, rydw i eisiau i *Amser i Newid Cymru* allu parhau ei waith ardderchog mewn maes lle mae dal cymaint o waith i'w wneud. Mae trafodaethau'n mynd rhagddi rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a thîm *Amser i Newid* ynghylch estyniad ariannu posib ac fe fyddaf yn eich diweddaru ar y trafodaethau yma mor fuan â phosib.

Yn gywir,

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg
Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.